Welsh Liberal Democrats
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

# CYMRU GRYFACH MEWN DU GRYFACH

*Maniffesto Democratiaid Rhyddfrydol Cymru 2026*



# Rhagair

Rhagair 4

Ein Pum Blaenoriaeth i Gymru 5

Cymru Gryfach mewn DU Gryfach 6

Iechyd a Gofal 9

Yr Economi, Busnes a Swyddi 15

Addysg, Plant a Theuluoedd 20

Yr Amgylchedd 25

Ynni a'r Newid yn yr Hinsawdd 28

Troseddu a Plismona 31

Bwyd aFfermio 34

Tai 37

Trafnidiaeth 40

Hawliau, Cydraddoldeb a Democratiaeth 43

Yr Iaith Gymraeg, Diwylliant a Chwaraeon 47

# Rhagair

## Jane Dodds
## Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru



**Ni allai mwy fod yn y fantol i Gymru. Ar ôl degawdau o fethiant gan Lafur a'r Ceidwadwyr, mae pobl yn amlwg yn barod am newid.**

Ond maen nhw hefyd yn poeni. Maen nhw’n poeni am sut y gallai Reform esgeuluso neu breifateiddio ein Gwasanaeth Iechyd, ac maen nhw’n poeni am yr effaith ar swyddi, buddsoddiad a dyfodol Cymru o ganlyniad i ffocws Plaid Cymru a'r Gwyrddion ar annibyniaeth.

Yn yr etholiad hwn, y Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yw’r unig blaid y gellir ymddiried ynddi i ddiogelu ein GIG ac atal annibyniaeth. Rydym yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n wirioneddol bwysig: gwneud Cymru'n iachach, yn decach ac yn fwy llwyddiannus: buddsoddi'n fwy doeth mewn iechyd ac addysg, helpu pobl i gael gwaith a chyfleoedd gwell, a diogelu ein hamgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae Cymru'n genedl falch sydd â photensial enfawr. Rydym yn credu y gallai dyfodol disglair fod o'n blaenau o hyd — ond dim ond os ydym yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n wirioneddol bwysig i bobl: iechyd, cyfleoedd a dyfodol ein cymunedau, nid dadleuon diddiwedd am y cyfansoddiadol.

Mae pob pleidlais dros Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru yn etholiadau'r Senedd yma yn bleidlais i amddiffyn ein GIG, atal annibyniaeth, a helpu Cymru i ffynnu.Mae pob pleidlais dros Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru yn etholiadau'r Senedd ym mis Mai yn bleidlais i amddiffyn ein GIG, atal annibyniaeth, a helpu Cymru i ffynnu.

# Ein pum blaenoriaeth i Gymru

## *Diogelu'r GIG*

buddsoddi mewn gofal cymdeithasol, cynorthwyo gofalwyr di-dâl, a dod â'r argyfwng yn ein hysbytai i ben.

## *Atal annibyniaeeth*

fel bod Cymru yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i fywydau pobl bob dydd.

## *Helpu Cymru i ffynnu*

drwy ddiwygio ardrethi busnes a helpu pobl i fynd yn ôl i weithio.

## *Rhoi'r dechrau gorau i bob plentyn*

drwy ddarparu gofal plant rhad ac am ddim ac o ansawdd i bob plentyn o naw mis oed, gan roi dewis go iawn i bob rhiant.

## *Glanhau ein hafonydd a'n moroedd*

gan ddiogelu iechyd y cyhoedd, bywyd gwyllt a'n heconomi twristiaeth.

# Cymru Gryfach mewn DU Gryfach



# Cymru Gryfach mewn DU Gryfach

**Credwn fod Cymru yn gryfach ac ar ei hennill o fewn y Deyrnas Unedig, ac mae’r Deyrnas Unedig yn gryfach ac ar ei hennill gyda Chymru ynddi. Dylai arian Llywodraeth Cymru a threthdalwyr Cymru ganolbwyntio ar gyflawni dros bobl Cymru, nid ein gwahanu oddi wrth weddill y DU.**

Ni fyddwn yn gwario ceiniog o arian Llywodraeth Cymru ar annibyniaeth.

Yn lle hynny, byddwn yn brwydro i gael bargen lawer tecach a llais cryfach i Gymru o fewn y DU. Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn credu y dylai Cymru gael llawer mwy o reolaeth dros ei materion ei hun mewn Deyrnas Unedig ffederal lle caiff grym ei rannu'n deg ar draws pob un o'r pedair gwlad. Rydym wedi bod yn dadlau ers amser maith dros gael mwy o bwerau i'r Senedd, yn ogystal â gwrthwynebu penderfyniadau annheg llywodraethau Ceidwadol a Llafur yn San Steffan. Mae’r rhain yn cynnwys labelu prosiectau HS2 ac East-West Rail - y ddau i'w hadeiladu'n gyfan gwbl yn Lloegr - yn rhai 'Cymru a Lloegr', gan olygu nad yw Cymru’n cael yr arian ychwanegol y mae'n ei haeddu.

**Bydd y Democratiaid Rhyddfrydol ar draws y DU yn parhau i frwydro i roi bargen deg i bobl Cymru drwy:**

- Roi'r pŵer i'r Senedd wneud Dydd Gŵyl Dewi yn wŷl y banc.
- Cwblhau cam nesaf datganoli yng Nghymru drwy roi’r cynigion sy’n weddill gan Gomisiwn Silk ar waith, lleihau’n sylweddol y pwerau a gedwir i San Steffan, yn ogystal â chynyddu pwerau benthyca a rhoi pwerau llawn i newid cyfraddau a throthwyon treth incwm fel yn yr Alban.
- Datganoli cyfrifoldeb am wasanaethau rheilffyrdd a seilwaith i Gymru, gan ddarparu cyllid teg a rhannu

# Cymru Gryfach mewn DU Gryfach parh.

cyfrifoldebau llywodraethu ar wasanaethau trawsffiniol.

- Creu awdurdodaeth gyfreithiol benodol i Gymru i adlewyrchu'r gwahaniaeth cynyddol yn y gyfraith o ganlyniad i ddatganoli.
- Datganoli pwerau dros blismona, carchardai, cyfiawnder ieuenctid a gwasanaethau prawf fel bod Cymru yn gallu creu dull effeithiol ac sy'n seiliedig ar y gymuned o fynd i'r afael â throseddu.
- Datganoli pwerau ymhellach dros ddarlledu i fynd i'r afael â'r diffyg ffynonellau gwybodaeth dibynadwy ac atebolrwydd democrataidd, a amlygwyd yn ystod y pandemig.
- Datganoli Doll Teithwyr Awyr i roi’r un chwarae teg i Gymru â'r Alban a Gogledd Iwerddon, yn ogystal â rhoi’r un chwarae teg i Faes Awyr Caerdydd â meysydd awyr rhanbarthol yn Lloegr.
- Datganoli Ystâd y Goron i Gymru.
- Sicrhau bod sylfaen Barnett wedi'i gosod ar lefel sy'n adlewyrchu'r angen i Gymru gael ei hariannu'n deg.
- Creu Cyngor o Weinidogion y Deyrnas Unedig i ddod â llywodraethau Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon ynghyd ag arweinwyr rhanbarthol ledled Lloegr.
- Dileu gallu Senedd y DU i benderfynu ar eu pen eu hunain newid pwerau'r seneddau datganoledig neu basio deddfau mewn meysydd sydd wedi’u datganoli.

# Iechyd a Gofal

*Diogelu'r GIG*



# Iechyd a gofal

## Diogelu'r GIG

**Mae iechyd da yn rhoi rhwydd hynt i bobl fyw eu bywydau fel y maen nhw’n dewis. I gael economi sy’n ffynnu, mae angen poblogaeth iach. Felly, mae gofal iechyd o’r radd flaenaf, sy’n rhad ac am ddim ac ar gael ble bynnag a phryd bynnag y mae ei angen, yn hanfodol ar gyfer rhyddid unigol a ffyniant cenedlaethol.**

Roedd gweddill y byd yn arfer edrych ar y GIG gyda chenfigen ond ar ôl blynyddoedd o esgeulustod a chamreoli, mae gormod o bobl yng Nghymru yn methu â chael y gofal sydd ei angen arnyn nhw.

Gall gymryd wythnosau i gael apwyntiad gyda meddyg teulu, ac nid yw gweld un o ddeintyddion y GIG yn bosibl i lawer o bobl. Nid yw pobl bellach yn hyderus, wrth ffonio 999, y bydd ambiwlans yn cyrraedd mewn pryd. Mae cannoedd o filoedd yn aros am driniaeth ac yn methu gweithio. Y mae’r gweithwyr rheng flaen, a gafodd eu cymeradwyo yn gwbl briodol, erbyn hyn yn cael eu gorweithio ac wedi ymlâdd.

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru o'r farn y dylai gofal fod ar gael i bawb, pryd bynnag a lle bynnag y bydd angen y gofal hynny arnyn nhw. Yn hytrach na gwario ar ddatrys un argyfwng ar ôl y llall, byddwn yn buddsoddi nawr i arbed arian, a bywydau, yn y tymor hir.

Bydd ein cynllun yn mynd i'r afael â'r argyfwng ym mhob rhan o’r GIG: yn gyntaf, drwy fuddsoddi yn iechyd y cyhoedd a rhoi mynediad cynnar at wasanaethau cymunedol - gan gynnwys meddygon teulu, fferyllwyr a deintyddion - gan olygu y bydd angen i lai o bobl fynd i'r ysbyty yn y lle cyntaf; ac yn ail, drwy ddatrys yr argyfwng ym maes gofal cymdeithasol fel bod mwy o welyau ar gael mewn ysbytai. Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn deall bod angen inni gael trefn ar ofal cymdeithasol er mwyn achub ein GIG.

# Diogelu'r GIG parh.

Rydym hefyd yn deall bod angen inni fod yn onest gyda phleidleiswyr am gost diogelu ein gwasanaethau cyhoeddus. Felly, os bydd San Steffan yn methu â diwygio'r fformiwla ariannu ar gyfer Cymru, yn ogystal â methu â threthu banciau a chwmnïau cyfryngau cymdeithasol mawr yn effeithiol, bydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, am gyfnod penodol o argyfwng, yn codi Cyfradd Treth Incwm Cymru (WRIT) 1c yn y bunt i ariannu buddsoddiad brys yn ein system gofal cymdeithasol.

**Byddwn yn:**

- Dod â gofal mewn coridorau i ben drwy fuddsoddi mewn hyd at 5,000 o leoliadau gofal nyrsio newydd neu wedi'u hadnewyddu. Caiff y rhain eu hadeiladu yn unol â safonau modern a'u cynllunio i roi annibyniaeth, urddas, a gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan helpu ysbytai i ganolbwyntio ar drin cleifion a dod â rhestrau aros i lawr.
- Hyfforddi mwy o Feddygon Teulu a Gweithwyr Iechyd Perthynol yng Nghymru i ddod â'r prinder i ben a galluogi pawb i gael gwasanaethau iechyd lleol yn gyflymach.
- Gwella cyfraddau goroesi canser a rhoi gwarant 100% y bydd cleifion yn dechrau triniaeth ar gyfer canser o fewn 62 diwrnod o gael atgyfeiriad brys yn rhan o Gynllun Canser Cenedlaethol Cymru.
- Gwarantu mynediad at ddeintydd y GIG i bawb sydd angen gofal brys, gan roi diwedd ar ddeintyddiaeth o'ch pen a'ch pastwn eich hun ac 'anialwch deintyddol'.
- Darparu'r gwasanaethau iechyd meddwl o'r radd flaenaf sydd eu hangen ar Gymru, gan roi'r un pwysigrwydd i iechyd meddwl ac iechyd corfforol fel ei gilydd. Gwella'r

# Diogelu'r GIG parh.

cymorth cynnar sydd ar gael a mynd i'r afael â’r diffyg buddsoddiad cronig, yn benodol, mewn gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS).

- Rhoi pum mlynedd yn rhagor o fywyd iach i bobl drwy raglen iechyd canol oes ataliol i rai dros 40au, gan amlygu problemau'n gynnar cyn iddyn nhw droi’n ddifrifol.
- Mynd i’r afael â gofal iechyd trawsffiniol a rhoi terfyn ar oedi annerbyniol i gymunedau ar hyd y ffin rhwng Cymru a Lloegr. Caiff hyn ei wneud drwy rannu data, ariannu yn decach a chreu atebolrwydd clir rhwng swyddogion GIG Cymru a Lloegr, yn ogystal â gwneud 'Datganiad ac Egwyddorion Gwasanaethau Gofal Iechyd Trawsffiniol Lloegr/Cymru' yn ddogfen gyfreithiol rwymol.
- Gwella prosesau casglu data'r GIG, gan wneud yn siŵr bod data y gellir ei gymharu rhwng byrddau iechyd. Bydd hyn yn ein galluogi i nodi anghydraddoldebau wrth gyflwyno a llywio camau i ddarparu gofal cyfannol ac sy’n rhoi’r unigolyn yn gyntaf i bawb.
- Diogelu cyfleusterau chwaraeon, y celfyddydau a diwylliant ar lawr gwlad, a buddsoddi ynddyn nhw, gan gydnabod eu rôl hanfodol mewn perthynas ag atal, cysylltiadau cymunedol, iechyd meddwl a lles cymdeithasol.
- Cyflwyno strategaeth gweithlu'r GIG a gofal cymdeithasol sy’n rhoi pwyslais ar staffio diogel, gan wella data er mwyn llywio’r gwaith o gomisiynu’r lleoedd addysg a hyfforddiant cywir.
- Cynnig arweinyddiaeth glinigol genedlaethol i sbarduno gwelliannau mewn gofal sy’n mynd i fod o fudd i bobl ym mhob rhan o Gymru.
- Dechrau rhaglen buddsoddi cyfalaf i drwsio, ailosod ac

# Diogelu'r GIG parh.

uwchraddio adeiladau bregus ysbytai Cymru, gan gynnwys Ysbyty Athrofaol Cymru yng Nghaerdydd ac Ysbyty Llwynhelyg Hwlffordd.

- Mynd i'r afael â'r anghydraddoldeb o ran cael mynediad at wasanaethau mewn ardaloedd gwledig drwy barhau i ddatblygu hybiau dydd at ddibenion diagnostig a llawdriniaethau, blaenoriaethu pob cam o Raglen Les Gogledd Powys i leihau'r angen am ofal iechyd trawsffiniol yn Ardal Hafren, yn ogystal â datblygu achosion busnes tebyg lle bo'n berthnasol.

**Byddwn hefyd yn ehangu ar gymorth i ofalwyr a'r sector gofal, drwy:**

- Helpu awdurdodau lleol i drawsnewid i ddull cyflwyno gofal sy'n seiliedig ar gryfderau a phwyslais ar ymyrraeth gynnar ac atal. Bydd hyn yn cynnwys cymryd camau i leihau eiddilwch a risg dementia, atal cwympiadau, a mynd i'r afael ag unigrwydd cymdeithasol cyn i broblemau waethygu.
- Helpu i sefydlu Coleg Brenhinol y Gweithwyr Gofal, gan wella cydnabyddiaeth broffesiynol, safonau, a llwybrau clir ar gyfer dilyniant.
- Dangos mwy o arweinyddiaeth wrth gau'r bwlch rhwng hawliau gofalwyr di-dâl yng nghyfraith Cymru a’r hyn sy’n digwydd ar lawr gwlad fel bod mwy o ofalwyr yn cael y cymorth y mae ganddyn nhw’r hawl i'w dderbyn.
- Ymestyn y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol am flwyddyn arall er mwyn rhoi amser i brosiectau symud i fodelau ariannu craidd, yn ogystal â rhoi cynllun newydd ar waith i ddatblygu dull gofal ataliol er mwyn integreiddio iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector.

# Diogelu'r GIG parh.

- Adolygu'r prosesau a ddilynir wrth bennu'r cydbwysedd ariannu rhwng gofal preswyl a Gofal Iechyd Parhaus (CIC), gan gynnwys cronfa gydbwyso fel bod modd dechrau pecynnau gofal tra bod llywodraeth leol a'r GIG yn dod i gytundeb ar drefniadau ariannu.
- Creu dyletswydd statudol newydd ar y GIG ac awdurdodau lleol i baratoi cynlluniau pontio ar gyfer pawb y maen nhw’n gwybod amdanyn nhw a fydd yn cael cymorth hirdymor o ganlyniad i'w hanableddau o 14 oed, fel bod ganddyn nhw lwybrau clir a ariennir yn barod ar eu cyfer wrth droi'n 18 oed.

# Yr Economi, Busnes a Swyddi

*Helpu Cymru i ffynnu*



# Yr Economi, Busnes a Swyddi

## Helpu Cymru i ffynnu

**Credwn fod pawb yn haeddu'r cyfle i lwyddo mewn bywyd a gweld eu gwaith caled a'u dyhead yn cael eu gwobrwyo'n briodol, ond nid dyna'r sefyllfa i ormod o bobl yng Nghymru heddiw. Ers amser maith, mae llywodraethau Llafur a Cheidwadol ym Mae Caerdydd a San Steffan wedi gwthio cost byw i fyny ac wedi dal busnesau ac entrepreneuriaid Cymru yn ôl.**

Mae pobl yn gweithio'n galed ac yn gwneud popeth y mae disgwyl iddyn nhw ei wneud, ond yn cael trafferth ymdopi o hyd â biliau ynni, prisiau bwyd a chostau tai. Chwalodd y Ceidwadwyr yr economi. Addawodd Llafur newid, ond maen nhw wedi bod yn wan ac yn ymladd ymysg ei gilydd.

Mae Llafur Cymru wedi dangos dro ar ôl tro nad ydyn nhw'n deall anghenion sectorau busnesau bach, lletygarwch, twristiaeth na ffermio ledled Cymru, gan adael ein stryd fawr ddirywio a chynnig dim byd ond ansicrwydd i'n cymunedau gwledig.

Mae angen mwy na chamau i leihau'r difrod ar Gymru. Mae angen economi fodern a theg arnom lle gall teuluoedd fforddio byw ag urddas, lle mae busnesau yn cael eu hannog i dyfu, gan alluogi Cymru i feithrin partneriaethau newydd mewn byd ansicr.

**Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn gweithio gyda'n cydweithwyr ledled y DU i gael yr economi i dyfu a dod â'r argyfwng costau byw i ben drwy:**

- Helpu pobl i fynd yn ôl i'r gwaith a llwyddo, gan ganolbwyntio ar ailhyfforddi, torri rhestrau aros y GIG a helpu gofalwyr teuluol i weithio.
- Ailadeiladu masnach Cymru gydag Ewrop drwy Undeb Tollau newydd y DU a'r UE a'n rhoi ar y llwybr cywir i ailymuno â'r Farchnad Sengl.

## Helpu Cymru i ffynnu parh.

- Cynorthwyo busnesau bach a rhai sy’n tyfu drwy flaenoriaethu mynediad at gyfalaf i alluogi busnesau arloesol i ehangu a chreu mwy o swyddi.
- Torri costau ynni uchel i bobl a diwydiant, buddsoddi mewn ynni adnewyddadwy rhad, symud prosiectau adnewyddadwy presennol oddi ar gontractau drud a etifeddir, a masnachu ynni yn well gyda'r UE.
- Cyflwyno Strategaeth Ddiwydiannol Cymru sy'n canolbwyntio'n llwyr ar entrepreneuriaeth, arloesi ac adeiladu ar gryfderau diwydiannol Cymru, sef gweithgynhyrchu gwerth uchel, diwydiannau creadigol, technolegau ariannol a seiber, a thrwy hynny rhoi manteision gwirioneddol i weithwyr a chymunedau Cymru.
- Buddsoddi mewn arloesedd a chymell busnesau i fanteisio i'r eithaf ar dechnoleg newydd, gan roi hwb i gynhyrchiant drwy helpu syniadau a chyfarpar da i ledaenu'n gyflym.
- Cynorthwyo busnesau bach a chanolig Cymru drwy adolygu rheolau caffael ar gyfer cynhyrchion a gwasanaethau a ariennir gan y llywodraeth.
- Sicrhau bod bargeinion Twf yn gweithio i ranbarthau cyfan gan graffu’n fanylach ar brosesau goruchwylio gweinidogol.
- Galluogi ein prifysgolion i ysgogi ymchwil ac arloesedd ar gyfer Cymru fodern ac uchelgeisiol.
- Galw ar Lywodraeth y DU i gynyddu’r gyfran y mae Cymru yn ei chael o arian Ymchwil a Datblygu'r DU.+
- Buddsoddi mewn prentisiaethau a hyfforddiant o ansawdd uchel, yn ogystal â dyfnhau'r cysylltiadau rhwng

# Helpu Cymru i ffynnu parh.

ein colegau a'n prifysgolion i roi hwb i ymchwil, arloesedd, a mynd i'r afael â phrinder sgiliau ar gyfer swyddi a thechnolegau 'newydd'.

- Ehangu prentisiaethau gradd, gan gynnwys ar lefel ôl-raddedig, amrywio'r meysydd pwnc sydd ar gael, a chreu mwy o lwybrau i gyflogaeth.
- Creu hybiau sgiliau peirianneg a thechnegol rhanbarthol sy'n cyd-fynd â'r galw gan gyflogwyr.

## Achub ein stryd fawr

Y stryd fawr yw canolbwynt ein trefi a'n dinasoedd. Mae'n hanfodol i fywyd cymunedol a ffyniant lleol, ond mae costau cynyddol, ardrethi busnes annheg a siopau gwag wedi gwthio llawer o fusnesau lleol at y dibyn, gan olygu bod bywyd a bwrlwm canol llawer o'n trefi wedi hen ddiflannu.

O dan Lafur, mae cyfraddau busnes yng Nghymru ar eu lefelau uchaf ers 26 mlynedd, ac yn uwch nag unrhyw le arall yn y DU. Y stryd fawr sydd wedi talu'r pris.

**Mae ein cymunedau yn haeddu gwell. Bydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn helpu siopau lleol, yn diogelu swyddi ac yn dod â balchder yn ôl i ganol ein trefi a'n dinasoedd drwy:**

- Greu cronfa canol trefi gwerth £400 miliwn, a gaiff ei buddsoddi i wneud ein strydoedd yn lanach, yn fwy diogel ac yn fwy gwyrdd.
- Ymestyn rhyddhad ardrethi busnes yn barhaol ar gyfer y sectorau manwerthu, hamdden a lletygarwch, rhewi'r

# Helpu Cymru i ffynnu parh.

lluosydd ardrethi i fusnesau sy'n wynebu trafferthion, ac edrych ar y posibilrwydd o gyflwyno Ardoll Werthu Ar-lein o 2% ar fanwerthwyr mawr ar-lein.

- Adolygu trothwyon rhyddhad ardrethi busnes yn rheolaidd ar draws pob sector fel eu bod yn cyd-fynd â chwyddiant, anghenion sectoraidd, ac amodau economaidd sy'n newid, wrth ddatblygu cynllun diwygio tymor hir ar gyfer trethiant busnes yng Nghymru.
- Cyflymu prosesau cymeradwyo newid defnydd ar gyfer adeiladau masnachol.
- Cryfhau’r Hawl Cymunedol i Brynu yn seiliedig ar fodel yr Alban.
- Cyflwyno rheolau cynllunio sy'n annog datblygiadau preswyl yng nghanol trefi.

# Addysg, Plant a Theuluoedd

*Rhoi'r dechrau gorau i bob plentyn*



# Addysg, Plant a Theuluoedd

## Rhoi'r dechrau gorau i bob plentyn

**Addysg yw'r buddsoddiad mwyaf y gallwn ei wneud ar gyfer ein plant ac yn nyfodol Cymru, ond o dan Lafur, mae ysgolion wedi cael eu gorfodi i gwtogi ar athrawon, cynorthwywyr addysgu a hyd yn oed y pynciau y gall disgyblion eu hastudio. Mae staff colegau o dan straen enfawr, ac mae ein prifysgolion mewn argyfwng.**

Mae pob plentyn yn haeddu'r dechrau gorau posibl mewn bywyd, beth bynnag fo'i gefndir, ond gan nad yw gofal plant nac addysg blynyddoedd cynnar ar gael i bawb mewn modd hyblyg a fforddiadwy, mae gormod o bobl o dan anfantais ac mae'n sefydlu anghydraddoldeb. Mae teuluoedd yn amrywio'n fawr o ran siâp a maint. Dylai rhieni gael y cymorth a'r hyblygrwydd i allu cydbwyso gwaith a bywyd teuluol mewn ffordd sy'n gweithio iddyn nhw.

Byddwn yn buddsoddi mewn addysg, gan ddechrau yn y blynyddoedd cynnar hollbwysig hyd at addysg i oedolion o bob oed. Rydym am i bob plentyn gael y cymorth a'r sylw sydd eu hangen arnyn nhw yn yr ysgol, fel eu bod yn gadael gyda'r sgiliau, yr hyder a'r gwydnwch i fod yn hapus ac yn llwyddiannus — beth bynnag maen nhw'n dewis ei wneud nesaf.

**Er mwyn rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn, byddwn yn:**

- Gwarantu gofal plant o ansawdd uchel a rhad ac am ddim i bob plentyn rhwng naw mis a phedair oed: 30 awr yr wythnos, 48 wythnos y flwyddyn.
- Datblygu strategaeth gyrfaoedd ar gyfer staff blynyddoedd cynnar - yn ogystal â gwneud yn siŵr bod cyfarpar ym mhob lleoliad gofal plant i adnabod plant ag anghenion dysgu ychwanegol a'u cefnogi.

# Rhoi’r dechrau gorau i bob plentyn parh.

**Gan roi cymorth parhaus drwy ysgolion a cholegau, byddwn yn:**

- Cynyddu’r arian a roddir i ysgolion a cholegau fesul disgybl yn uwch na'r gyfradd chwyddiant bob blwyddyn.
- Darparu prydau ysgol rhad ac am ddim i blant cymwys drwy gydol gwyliau'r ysgol.
- Creu strategaeth gweithlu’r athrawon i fynd i'r afael â'r argyfwng o ran recriwtio a chadw.
- Dod â’r sefyllfa warthus o ran sut mae adeiladau ysgolion a cholegau’n dadfeilio i ben drwy barhau i fuddsoddi mewn cyfleusterau newydd.
- Diweddaru'r Cod Trefniadaeth Ysgolion fel bod cynghorau yn darparu (yn unigol neu mewn partneriaeth) o leiaf un man addysg cyfrwng Cymraeg ac un cyfrwng Saesneg sydd o fewn awr o daith mewn cerbyd mewn ardaloedd gwledig, ac o fewn hanner awr mewn ardaloedd trefol erbyn 2035.
- Cyflwyno grant pontio cyfrwng Cymraeg i helpu awdurdodau lleol dalu'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â chynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg newydd mewn ardaloedd lle nad oes darpariaeth ar hyn o bryd, yn unol â'r costau a bennir gan eu fformiwla ariannu ysgolion.
- Gwneud yn siŵr bod pob plentyn yng Nghymru yn gadael yr ysgol yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg drwy fuddsoddi mewn adnoddau addysgu dwyieithog, mynnu bod pob Cyngor yn cynnig mynediad at addysg yn y ddwy iaith, a hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg drwy anogaeth a dewis, ond byth gorfodaeth.

## Rhoi’r dechrau gorau i bob plentyn parh.

- Cryfhau ymyrraeth gynnar drwy nodi disgyblion sydd mewn perygl o droi eu cefnau ar addysg yn 14 oed drwy alluogi ysgolion a Gyrfa Cymru i gydweithio’n agosach.
- Diwygio cyfraddau ymyrraeth o dan Raglen y Cymunedau Dysgu Cynaliadwy fel bod ysgolion y wladwriaeth yn cael yr un cyfraddau â darpariaeth eglwysig.
- Gweithio tuag at Warant i Ymadawyr Ysgolion fel bod pob person ifanc sy'n gadael addysg uwchradd yng Nghymru yn cael, o fewn tri mis, cynnig clir o addysg bellach neu uwch, prentisiaeth neu hyfforddeiaeth â thâl, gwaith cyflogedig sy’n cynnwys hyfforddiant cydnabyddedig, neu gyflogaeth â chymorth wedi'i deilwra - gan wneud yn siŵr nad oes unrhyw un yn cael ei adael heb lwybr i ddysgu neu waith.

**Ni all Cymru ddatrys yr argyfwng yn ein prifysgolion ar ei phen ei hun. Yng Nghymru, byddwn yn:**

- Parhau i ddarparu'r system fwyaf hael o gyllid i fyfyrwyr yn unrhyw le yn y DU i fyfyrwyr o Gymru, lle bynnag y maen nhw’n astudio.
- Gwneud yn siŵr bod cyfleoedd i bobl ifanc astudio, addysgu a gwirfoddoli dramor drwy barhau i fuddsoddi yn rhaglen Taith a thrwy ddychwelyd i raglen Erasmus Plus fel gwlad gysylltiedig.
- Cynyddu mynediad at addysg ar lefel prifysgol fel bod ein holl bobl ifanc uchelgeisiol yn cael y cyfle i ffynnu.

# Rhoi'r dechrau gorau i bob plentyn parh.

**Yn San Steffan, bydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn cynorthwyo prifysgolion Cymru ac yn diogelu dyfodol ein prifysgolion sy'n arwain y byd, drwy:**

- Wrthdroi'r cynnydd niweidiol mewn yswiriant cenedlaethol a'r ardoll i fyfyrwyr rhyngwladol.
- Gweithio tuag at ddod â'r anghydraddoldeb o ran pensiynau i ben rhwng sefydliadau cyn ac ôl-1992.
- Creu rhwydwaith o ganolfannau arloesi rhanbarthol ledled y DU, gan wneud yn siŵr bod pob cenedl a rhanbarth o bwys yn gallu helpu prifysgolion a diwydiant i gydweithio a defnyddio cyfleusterau ymchwil o'r radd flaenaf.
- Ailgyflwyno grantiau cynhaliaeth i'r rhai sy'n derbyn Cyllid Myfyrwyr Lloegr yn ogystal â benthyciadau presennol i fyfyrwyr, a'n nod fydd talu am 35 y cant o fyfyrwyr israddedig, gan godi i 50 y cant pan fydd arian cyhoeddus yn caniatáu.

Dylai dysgu fod yn gyfle gydol oes, boed hynny oherwydd mwynhad dysgu ac ymdeimlad o gymuned, i ddatblygu sgiliau neu ailhyfforddi ar gyfer gyrfa newydd, neu i roi cynnig arall ar ennill cymwysterau i fagu hyder ac agor llwybrau newydd. Byddwn yn parhau i gynorthwyo dysgu gydol oes, gan weithio gyda'r sector Addysg Bellach, cyflogwyr, a chyrff allweddol i ddatblygu gweledigaeth ar gyfer addysg ôl-16 er budd dysgwyr a staff, gan ddarparu cymwysterau hyblyg a dilys.

# Yr Amgylchedd

*Glanhau ein hafonydd a'n moroedd*



# Yr Amgylchedd

## Glanhau ein hafonydd a'n moroedd

**Diogelu amgylchedd naturiol Cymru sy’n rhan annatod o bwy ydym ni. Dylai pawb allu mwynhau mannau gwyrdd agored, afonydd glân a'n harfordir godidog — a’n bwriad yw gwneud yn siŵr bod hynny’n parhau.**

Y sgandal carthion yw’r enghraifft amlycaf o'r argyfwng ym myd natur. Gwastraff budr yn cael ei ddadlwytho yn ein hafonydd, ein llynnoedd a'n harfordiroedd gan gwmnïau dŵr a llygrwyr eraill, gan ladd bywyd gwyllt a pheryglu iechyd y cyhoedd. Mae gan Lafur yn San Steffan a Bae Caerdydd y pŵer i gymryd camau. Maen nhw wedi dewis peidio â gwneud hynny.

Mae gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru gynllun beiddgar i adfer amgylchedd naturiol Cymru, gan wneud yn siŵr bod byd naturiol glân ac iach ar gael i bawb.

**Byddwn yn:**

- Dod â’r sgandal carthion i ben drwy ddeddfu i wahardd dadlwytho carthion amrwd yn ein dyfrffyrdd, gwahardd taliadau bonws i benaethiaid cwmnïau dŵr nes bod gollyngiadau yn dod i ben, a byddwn yn disodli Ofwat â chorff rheoleiddio newydd a chryf ar gyfer Cymru sydd â phwerau gwirioneddol i atal carthion rhag cael eu dadlwytho.
- Cyflwyno rhaglen 'coridor glas' ar gyfer afonydd, nentydd a llynnoedd er mwyn gwneud yn siŵr bod dŵr glân ac iach, a gosod safonau 'baner las' newydd.
- Gosod targedau ystyrlon a rhwymol i atal ein hamgylchedd naturiol rhag dirywio, a dyblu natur erbyn 2050.
- Pasio Deddf Bywyd Gwyllt gynhwysfawr i Gymru er mwyn egluro a chryfhau amddiffyniadau i anifeiliaid.

# Glanhau ein hafonydd a'n moroedd parh.

- Rhoi’r arian a'r adnoddau sydd eu hangen ar Gyfoeth Naturiol Cymru i fonitro llygredd a mynd i'r afael â hyn yn effeithiol.
- Cyflwyno strategaeth genedlaethol hirdymor mewn perthynas â gwydnwch llifogydd ac erydu arfordirol, gan gynnwys gweledigaeth 30 mlynedd a dull diogelu cymunedau sy’n seiliedig ar dalgylchoedd.
- Gwneud yn siŵr bod atebion sy'n seiliedig ar natur yn rhan hanfodol o fynd i'r afael â’r newid yn yr hinsawdd, storio carbon a lleihau llifogydd.
- Rhoi cymorth ariannol digonol ar gyfer plannu coetiroedd, creu cynefinoedd a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) yn seiliedig ar asesiadau realistig o gostau a defnyddio dulliau cost isel, agos at natur, a cheisio lleihau rheoleiddio er mwyn hwyluso dulliau naturiol.

# Ynni a'r Newid yn yr Hinsawdd

*Swyddi glân a biliau ynni is*



# Ynni a'r Newid yn yr Hinsawdd

## Swyddi glân a biliau ynni is

**Mae'r newid yn yr hinsawdd yn fygythiad i'n bodolaeth. Mae tymereddau cynyddol sy'n arwain at danau gwyllt, llifogydd, sychder a lefel y môr yn codi yn effeithio ar filiynau o bobl yn uniongyrchol, yn ogystal â biliynau yn rhagor o ganlyniad i gynhyrchu llai o fwyd a phrisiau cynyddol. Mae angen cymryd camau ar frys — yng Nghymru, y DU a ledled y byd — er mwyn osgoi trychineb.**

Ar yr un pryd, mae biliau ynni uchel yn effeithio ar deuluoedd a busnesau, gan ysgogi'r argyfwng costau byw. Mae'r rhyfeloedd yn yr Wcráin ac Iran wedi atgyfnerthu'r angen i'r DU fod yn llawer llai dibynnol ar danwydd ffosil a buddsoddi mewn ynni adnewyddadwy - i leihau biliau ynni yn ogystal â rhoi diogelwch ynni.

Bydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cymryd y camau beiddgar sydd eu hangen i leihau biliau ynni, creu swyddi gwyrdd sy'n talu'n dda ac arwain Cymru at sero net, a pheidio â gadael unrhyw aelwyd ar ôl wrth bontio i gyfnod newydd.

**Byddwn yn:**

- Gwneud cartrefi yn gynhesach ac yn rhatach i'w gwresogi drwy gyflwyno rhaglen uwchraddio brys dros gyfnod o ddeng mlynedd.
- Buddsoddi i roi Cymru ar flaen y gad ym maes pŵer llanw a dŵr - gan gyflwyno Morlyn Llanw Bae Abertawe o'r diwedd ar ôl blynyddoedd o dorri addewidion gan lywodraethau olynol.
- Cyflymu camau i gynhyrchu ynni gwynt yn y Môr Celtaidd gan ddenu prosiectau gweithgynhyrchu tyrbinau a sylfeini i borthladdoedd Cymru.

## Swyddi glân a biliau ynni is parh.

- Cynorthwyo prosiectau peilot i asesu’r potensial i ddatblygu hydrogen gwyrdd.
- Defnyddio technolegau newydd i helpu pobl i ddefnyddio ynni'n fwy hyblyg, ar adegau pan mae'n rhatach — a thalu llai yn sgîl hynny.
- Gwrthwynebu unrhyw gynlluniau i wrthdroi'r gwaharddiad ar ffracio, a fyddai'n peryglu ein cefn gwlad gwerthfawr yng Nghymru.
- Arwain chwyldro solar ar doeon drwy ddeddfwriaeth newydd i wneud yn siŵr bod paneli solar yn cael eu gosod ar bob cartref newydd ac adeiladau mawr, yn ogystal â meysydd parcio a mannau llwyd eraill.
- Diogelu cyllid ar gyfer prosiectau hydro bychain, y mae Llafur wedi ceisio eu cwtogi sawl gwaith ers 2021.
- Rhoi pwysau ar Lywodraeth y DU i edrych ar brisiau trydan fesul parth, gan ymgorffori parth Cymreig ar wahân, i wneud trydan yn rhatach mewn ardaloedd sydd â digonedd o ynni adnewyddadwy ac atal y sgandal lle mae defnyddwyr a busnesau Cymru yn rhoi cymhorthdal trydan i ddefnyddwyr yn Llundain a de-ddwyrain Lloegr.

# Troseddu a Plismona

## Gwneud ein cymunedau yn fwy diogel



# Troseddu a plismona

## Gwneud ein cymunedau yn fwy diogel

**Mae pawb yn haeddu teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain, ond nid dyna’r sefyllfa i ormod o bobl yng Nghymru ar hyn o bryd.**

Mae trais difrifol yn dinistrio gormod o fywydau ifanc. Mae byrgleriaeth, twyll ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn difetha ein cymunedau, ac mae trais yn erbyn menywod a merched yn parhau i fod yn arswydus o gyffredin. Gan nad oes gan ein heddlu adnoddau digonol nid oes digon yn cael ei wneud i ddatrys llawer gormod o droseddau.

San Steffan sy’n gwneud llawer o'r penderfyniadau sy'n cyfyngu ar ein gallu i fod yn rhydd a ffynnu, ond ni fydd hynny'n ein hatal rhag brwydro i greu cymdeithas fwy hael a mwy rhyddfrydol sy’n galluogi pob un ohonom i ffynnu.

Byddwn yn defnyddio’r holl bwerau sydd gennym i gyflwyno newidiadau - a byddwn yn bachu ar bob cyfle i lobïo am fwy o bwerau fel bod penderfyniadau sy'n effeithio ar Gymru yn cael eu gwneud yma yng Nghymru.

**Bydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn atal troseddu ac yn adeiladu cymunedau lle gall pobl deimlo'n wirioneddol ddiogel drwy:**

- Adfer plismona cymunedol priodol, lle mae heddweision i’w gweld, rydym yn ymddiried ynddyn nhw, ac maen nhw’n canolbwyntio ar atal a datrys troseddau - yn enwedig treisio a throseddau treisgar eraill.
- Datganoli pwerau dros blismona, carchardai, cyfiawnder ieuenctid a gwasanaethau prawf fel bod Cymru yn gallu creu dull effeithiol ac sy'n seiliedig ar y gymuned o fynd i'r afael â throseddu.

# Gwneud ein cymunedau yn fwy diogel parh.

- Gwrthwynebu unrhyw gynlluniau i ganoli pedwar awdurdod heddlu Cymru yn un llu cenedlaethol sy'n llai atebol ac yn llai ymatebol i anghenion lleol.
- Gofalu bod goroeswyr trais yn erbyn menywod a merched yn cael cefnogaeth briodol drwy gydol y broses cyfiawnder troseddol, yn ogystal â rhoi hyfforddiant gorfodol sy'n seiliedig ar drawma i'r heddlu ac erlynwyr.
- Sefydlu comisiwn i benderfynu beth y gall meysydd addysg, cyfiawnder, a gwasanaethau cynghorau ei wneud i greu cymdeithas fwy diogel a thecach i fenywod a merched.
- Gwella data ar ba mor gyffredin yw troseddau casineb i lywio gwasanaethau, cyllid, a strategaethau i atal troseddau.
- Gweithio gyda Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu i atal heddluoedd yng Nghymru rhag defnyddio technoleg adnabod wynebau.

# Bwyd a Ffermio

## Cefnogi ffermio yng Nghymru



# Bwyd a Ffermio

## Cefnogi ffermio yng Nghymru

**Ffermwyr Cymru yw'r gorau yn y byd. Maen nhw’n gynghreiriaid allweddol wrth fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur, gofalu am gefn gwlad a’i adfer, yn ogystal â chynhyrchu bwyd o ansawdd uchel.**

Fodd bynnag, mae ffermwyr wedi cael eu siomi gan lywodraeth Lafur ac mae’n amlwg nad yw’n deall cymunedau gwledig. Yn y cyfamser, maen nhw wedi wynebu cynnydd mewn biliau ynni, gwrtaith a bwyd anifeiliaid. Nid yw'n syndod ein bod wedi gweld prinder bwyd yn yr archfarchnadoedd.

Mae cytundeb Brexit wedi effeithio ar allu ffermwyr a physgotwyr i allforio i'w prif farchnadoedd Ewropeaidd. Ar yr un pryd, mae cytundebau masnach newydd yn tanseilio safonau lles anifeiliaid ac yn cynnig prisiau is na’r hyn a godir gan gynhyrchwyr cyfrifol o Gymru.

Bydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cefnogi ffermwyr Cymru ac yn gwneud yn siŵr bod pawb yn gallu cael bwyd fforddiadwy, iach a maethlon, wedi'i gynhyrchu yn unol â safonau lles ac amgylcheddol uchel.

**Byddwn yn:**

- Buddsoddi £50 miliwn yn ychwanegol bob blwyddyn i gefnogi ffermio proffidiol, cynaliadwy ac sydd o les i natur yng Nghymru.
- Cyflwyno'r cynllun taliadau ffermio newydd yn drefnus a theg drwy fuddsoddi mewn hyfforddiant a chyngor, yn ogystal â grantiau pontio ar gyfer y rhai sydd mewn angen.
- Cyflwyno Strategaeth Fwyd Genedlaethol i Gymru i ddiogelu cyflenwadau bwyd, mynd i'r afael â thlodi bwyd a gwella iechyd a maeth pob teulu.

# Cefnogi ffermio yng Nghymru parh.

- Hyrwyddo cydweithfeydd ffermwyr ifanc i roi pŵer bargeinio ar y cyd i'r genhedlaeth nesaf, adnoddau a rennir, a gwell mynediad at farchnadoedd.
- Sefydlu rhaglenni mentoriaethau a phrentisiaethau sy'n cysylltu ffermwyr profiadol o Gymru â phobl ifanc sy'n mynd i mewn i'r sector, gan wneud yn siŵr bod gwybodaeth draddodiadol yn cael ei throsglwyddo ochr yn ochr ag arferion cynaliadwy modern.
- Brwydro i wneud yn siŵr bod pob cytundeb masnach yn y dyfodol yn bodloni safonau uchel o ran iechyd, yr amgylchedd a lles anifeiliaid, gan gwneud yn siŵr nad yw ffermwyr a gweithgynhyrchwyr bwyd Cymru o dan anfantais annheg.
- Cryfhau camau amddiffyn lles anifeiliaid er mwyn cyrraedd y safonau uchaf posibl.
- Gwneud yn siŵr bod gan ddefnyddwyr hyder yn y bwyd y maen nhw’n ei fwyta drwy roi labeli gonest a chlir ar fwyd gan gynnwys camau amddiffyn cryf i gynnyrch Cymreig.

# Tai

*Mynd i'r afael â'r argyfwng tai*



# Tai

## Mynd i'r afael â'r argyfwng tai

**Cartref yw'r sylfaen ar gyfer bywyd da. Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn credu bod pawb yn haeddu lle diogel, cynnes a fforddiadwy i fyw, a byddwn yn brwydro i wireddu hynny ledled Cymru.**

Fodd bynnag, yng Nghymru heddiw, nid yw llawer o bobl yn gallu fforddio prynu neu rentu cartref o ansawdd da yn yr ardal lle maen nhw'n byw. Mae gormod o bobl yn byw mewn tai sydd mor wael fel eu bod yn niweidio eu hiechyd.

O dan Lafur, mae targedau adeiladu tai wedi eu methu dro ar ôl tro, mae tai fforddiadwy a chymdeithasol yn eithriadol o brin, ac mae digartrefedd ledled Cymru yn parhau i fod yn gywilyddus o uchel. Mae cyfraddau cymeradwyo camau cynllunio ar gyfer cartrefi newydd yng Nghymru yn gostwng ac ymhell islaw'r hyn sydd ei angen i ddiwallu'r galw.

Mae gormod o dai newydd yn cael eu hadeiladu fel rhai lesddaliad ac mae lesddeiliaid yn wynebu biliau mawr o hyd, yn bennaf oherwydd y sgandal o ran diogelwch adeiladau. Nid oes gan awdurdodau lleol y pwerau digonol i adeiladu'r math o gartrefi sydd eu hangen yn eu hardaloedd.

**Byddwn yn:**

- Adeiladu'r cartrefi sydd eu hangen ar Gymru, gan gynnwys 30,000 o dai cymdeithasol, gan flaenoriaethu tir llwyd a gwneud yn siŵr bod datblygiadau newydd yn cryfhau cymunedau lleol.
- Gwneud cartrefi yn gynhesach ac yn rhatach i'w gwresogi drwy gyflwyno rhaglen uwchraddio brys dros gyfnod o ddeng mlynedd.
- Cyhoeddi cynllun trawslywodraethol ar frys i ddod â

# Mynd i'r afael â'r argyfwng tai parh.

chysgu ar y stryd a phob math o ddigartrefedd i ben, gan roi mynediad at wasanaethau atal a chyngor, yn ogystal ag ariannu Tai yn Gyntaf dros nifer o flynyddoedd.

- Gwneud yn siŵr bod band eang gigabit ar gael i bob cartref a busnes, gan gynnwys mewn cymunedau gwledig ac anghysbell, a chynnig atebion pwrpasol lleol er mwyn cynnwys pob eiddo.
- Rhoi terfyn ar sgandal deiliadaeth lesddaliad, gan wneud yn siŵr bod pob cartref newydd yn cael ei gynnig naill ai fel un rhydd-ddaliad neu gyfunddaliad.

# Trafnidiaeth

***Gwneud teithio yn ddiogel, yn gyfleus ac yn fforddiadwy***



# Trafnidiaeth

## Gwneud teithio yn ddiogel, yn gyfleus ac yn fforddiadwy

**Dylai ffyrdd cyfleus a fforddiadwy o deithio o gwmpas fod ar gael i bawb yng Nghymru, boed hynny i fynd i'r gwaith, yr ysgol, yr ysbyty, neu er mwyn cadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau. Mae trafnidiaeth dda yn hanfodol i ffyniant economaidd Cymru, i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, ac i wneud yn siŵr nad oes unrhyw gymuned yn cael ei gadael ar ôl.**

Diolch i Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, gall pawb yng Nghymru sydd o dan 22 oed deithio ar y bws am £1 yn unig fesul taith neu £3 y dydd, gan ei gwneud hi'n haws i bobl ifanc gyrraedd yr ysgol, coleg, prifysgol neu'r gwaith.

Drwy fuddsoddi mewn cerbydau trydan a thrafnidiaeth gyhoeddus lân, yn ogystal ag annog cerdded a beicio, bydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn gwella cysylltedd lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn ogystal â rhoi hwb i'r economi, diogelu'r amgylchedd a gwella iechyd y cyhoedd.

**Byddwn yn:**

- Parhau i geisio dwyn perswâd ar Lywodraeth y DU ychwanegu Cymru wledig at ei Chynllun Rhyddhad ar Ddyletswydd Tanwydd Gwledig, gan leihau costau gyrru i gymunedau gwledig.
- Cryfhau ac ymestyn y tocynnau teithiau bws sengl £1 a £3 am y dydd i bobl ifanc, fel bod mynediad fforddiadwy i bawb o dan 25 oed ar draws y wlad yn rhan o raglen ehangach i gynyddu faint o drafnidiaeth gyhoeddus a ddefnyddir.
- Mynd i'r afael â'r ôl-groniad o waith atgyweirio ffyrdd, a gwneud yn siŵr bod Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu

## Gwneud teithio yn ddiogel, yn gyfleus ac yn fforddiadwy parh.

gwelliannau i ffyrdd a thrafnidiaeth gyhoeddus sy'n helpu i gysylltu pobl â swyddi ac astudio.

- Trawsnewid sut mae pobl yn teithio drwy greu rhwydweithiau newydd ar gyfer seiclo a cherdded yn rhan o Strategaeth Teithio Llesol newydd.
- Gwneud yn siŵr bod gwasanaethau a seilwaith rheilffyrdd yn parhau i gael eu huwchraddio’n gyflym, gan gynnwys cyflwyno gwasanaethau fesul awr ar Linell Cambrian, trydaneiddio prif linellau gogledd a de Cymru, a chyflwyno gwelliannau pellach i wasanaethau llinell Calon Cymru.
- Datganoli Doll Teithwyr Awyr i roi’r un chwarae teg i Gymru â'r Alban a Gogledd Iwerddon, yn ogystal â rhoi’r un chwarae teg i Faes Awyr Caerdydd â meysydd awyr rhanbarthol yn Lloegr.

# Hawliau, Cydraddoldeb a Democratiaeth

*Rhyddid, grym ac urddas i bawb*



# Hawliau, Cydraddoldeb a Democratiaeth

## Rhyddid, grym ac urddas i bawb

**Mae pob person yn bwysig. Mae Democratiaid Rhyddfrydol o'r farn bod hawliau ac urddas sylfaenol yn enedigaeth-fraint, a bod y rhain i'w parchu, eu coleddu a'u gwella. Dylai pawb gael yr un pŵer yn ein democratiaeth a gallu dwyn gwleidyddion i gyfrif yn llawn.**

Diben y Democratiaid Rhyddfrydol yw adeiladu cymdeithas rydd lle mae hawliau a rhyddid pob person yn cael eu diogelu. Dylai pawb allu byw eu bywydau fel pwy ydyn nhw: yn rhydd i ddilyn eu breuddwydion a gwireddu eu potensial, gan wybod y bydd eu hawliau sylfaenol yn cael eu diogelu.

Dros y degawdau diwethaf, mae Cymru a'r Deyrnas Unedig wedi bod ar flaen y gad yn hyrwyddo hawliau dynol, rhyddid sifil a chydraddoldeb i fenywod, pobl LHDTC+ a phobl anabl. Fodd bynnag, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac mewn gormod o ffyrdd, mae cynnydd wedi arafu’n sylweddol, ac erbyn hyn, mae Reform a’r Ceidwadwyr yn bygwth cael gwared ar Ddeddf Hawliau Dynol y DU, sy'n amddiffyn ein rhyddid sylfaenol ym Mhrydain.

Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn hyrwyddo rhyddid, urddas a lles pob unigolyn. Byddwn yn brwydro yn erbyn pob math o ragfarn a gwahaniaethu, ble bynnag y maen nhw, gan gynnwys sefyllfaoedd pan fydd unigolion yn wynebu anfanteision penodol.

Credwn mai amrywiaeth cyfoethog Cymru yw un o'i phrif gryfderau, a dylai pobl chwarae eu rhan o ran cynnal eu cymunedau. Byddwn yn dathlu'r amrywiaeth hwn ac yn gwneud yn siŵr ei fod yn cael ei adlewyrchu'n well ym mhob elfen o fywyd cyhoeddus. Byddwn yn cymhwyso egwyddorion agored, tryloywder ac atebolrwydd i fynd i'r afael â rhagfarnau sefydliadol, hyrwyddo cydraddoldeb a dwyn y rhai sydd mewn

# Rhyddid, grym ac urddas i bawb parh.

grym i gyfrif.

**Byddwn yn:**

- Gwneud yn siŵr bod yr un gwerth i bob pleidlais, ac na all unrhyw wleidydd eich cymryd yn ganiataol, drwy'r gynrychiolaeth gyfrannol a gynigir gan system y Bleidlais Sengl Trosglwyddadwy ar gyfer pob etholiad yng Nghymru.
- Hyrwyddo'r Ddeddf Hawliau Dynol a gwrthsefyll unrhyw ymdrechion i'w gwanhau neu ei diddymu.
- Cadarnhau ymrwymiad y DU i'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a gwrthwynebu unrhyw ymdrechion i'w adael.
- Cadarnhau hawliau plant a phobl ifanc yng Nghymru drwy'r Bil Pob Plentyn.
- Gwneud yn haws i bobl anabl gael mynediad at fywyd cyhoeddus, gan gynnwys byd gwaith, ac ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau yng nghyfraith Cymru.
- Datblygu Strategaeth Gydraddoldeb Hil gynhwysfawr a'i rhoi ar waith i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau dwfn, gan gynnwys ym meysydd addysg, iechyd, cyfiawnder troseddol a'r economi.
- Gan gydnabod risg gynyddol anoddefgarwch crefyddol i gydlyniant cymunedol, byddwn yn gweithio gyda chymunedau i fynd i'r afael â'r cynnydd mewn troseddau

## Rhyddid, grym ac urddas i bawb parh.

casineb crefyddol, gan gynnwys Antisemitiaeth ac Islamoffobia.

- Parchu ac amddiffyn hawliau pobl o bob cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rywiol, gan gynnwys mynediad at ofal meddygol sy'n achub bywydau.
- Gweithio ar draws gwledydd i sefydlu consensws ar gyfer diwygio deddfau sy’n hyrwyddo cydraddoldeb a chydnabod rhywiau er mwyn diogelu hawliau pobl draws.

# Yr Iaith Gymraeg, Diwylliant a Chwaraeon

*Dathlu pwy ydym ni*



# Yr Iaith Gymraeg, Diwylliant a Chwaraeon

## Dathlu pwy ydym ni

**Mae ein hiaith, ein diwylliant a'n bywyd chwaraeon wrth wraidd ein hunaniaeth genedlaethol. Maent yn cysylltu ein cymunedau, yn cyfoethogi ein bywydau bob dydd, ac yn arddangos Cymru i'r byd gyda balchder a hyder. Credwn y dylai pawb gael y cyfle i brofi, cymryd rhan yn a chyfrannu at ein bywyd diwylliannol.**

Ond mae gormod o bobl yn dal i wynebu rhwystrau i gael mynediad at gyfleoedd diwylliannol, dysgu a defnyddio'r Gymraeg, neu gymryd rhan mewn chwaraeon. Mae cymunedau Cymraeg ledled Cymru, ac yn enwedig y rhai yng nghadarnleoedd gwledig yr iaith, dan bwysau gyda phobl ifanc yn gadael i chwilio am gyfleoedd.

Bydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cefnogi twf y Gymraeg drwy anogaeth a chyfleoedd, yn buddsoddi yn ein diwydiannau creadigol a'n mannau diwylliannol lleol, ac yn sicrhau bod chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn hygyrch i bawb, beth bynnag fo'ch cefndir neu ble rydych chi'n byw.

Trwy ddathlu ein treftadaeth a buddsoddi yn ein dyfodol, gallwn adeiladu Cymru fwy hyderus, cysylltiedig a ffyniannus.

**Er mwyn dathlu pwy ydym ni a sicrhau bod y cyfleoedd hyn ar gael i bawb, byddwn yn:**

- Diogelu a buddsoddi mewn cyfleusterau chwaraeon, celfyddydau a diwylliant ar lawr gwlad, gan gydnabod eu rôl hanfodol mewn atal salwch, cysylltiadau cymunedol, iechyd meddwl a lles cymdeithasol.
- Gweithio gydag awdurdodau lleol i ddiogelu pyllau nofio a chanolfannau hamdden fel seilwaith iechyd cymunedol

# Dathlu pwy ydym ni parh.

hanfodol ar lawr gwlad.

- Sicrhau sefydlogrwydd hirdymor i glybiau rygbi rhanbarthol a lleol fel y gallant barhau i gefnogi rhai o gymunedau Cymru sydd fwyaf datgysylltidig ac agored i niwed.
- Cyflwyno cymorthdaliadau trafnidiaeth ddiwylliannol i alluogi teithio am ddim i ysgolion mewn ardaloedd gwledig a difreintiedig, gan sicrhau bod mynediad i amgueddfeydd a phrofiadau diwylliannol yn wirioneddol agored i bawb.
- Galluogi Cymru i adeiladu partneriaethau diwylliannol ac addysgol cryfach gyda gwledydd Ewrop, gan gynnwys yn y sectorau celfyddydau a chreadigol.
- Pasio Deddf Addysg Gymraeg i Bawb, gan normaleiddio'r Gymraeg mewn addysg gan gynnwys ar gyfer dysgu gydol oes ac mewn addysg ôl-16.
- Cefnogi a galluogi twf cymunedau gwledig sy'n siarad Cymraeg drwy becyn o bolisïau a chyllid.
- Sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus a gwasanaethau iechyd a gofal ar gael i bob defnyddiwr drwy gyfrwng y Gymraeg, drwy ddarparu gwell cynllunio'r gweithlu, mynediad at hyfforddiant a chyllid.

# DIOGELU'R GIG, ATAL ANNIBYNIAETH

Welsh Liberal Democrats
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

Cyhoeddwyd a hyrwyddwyd gan Mike O'Carroll ar ran Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, 20 Heol Pantbach, Caerdydd, CF14 1AY. Argraffwyd gan InstantPrint, Unit A, Brookfields Park, Manvers Way, Manvers, Rotherham, S63 5DR.